
| PWYLLGOR CYNLLUNIO | DYDDIAD: 18/05/2015 |
|---|---|
| ADRODDIAD UWCH REOLWR GWASANAETH CYNLLUNIO AC AMGYLCHEDD | DOLGELLAU |

**Rhif**: **2**

## Rhif y Cais / Application Number : C14/1012/14/LL

Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.
Location Plan for identification purposes only. Not to scale.



Cais Rhif: C14/1012/14/LL
Dyddiad Cofrestru: 17/10/2014
Math y Cais*:* Llawn - Cynllunio
Cymuned*:* Caernarfon
Ward: Peblig

Bwriad: GOSOD UNED LLOSGI BIOMAS NEWYDD ODDI FEWN I GYSGODFAN PRESENNOL, CODI SIMDDE NEWYDD YNGHYD A CHREU ESTYNIAD I GADW PEIRIANT RHWYGO

Lleoliad: WELCOME FURNITURE, YSTAD DDIWYDIANNOL CIBYN INDUSTRIAL ESTATE, CAERNARFON, LL552BD

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** CANIATAU GYDAG AMODAU

## 1. Disgrifiad:

1.1 Cais llawn yw hwn ar gyfer gosod uned llosgi biomas newydd oddi fewn i gysgodfan presennol, codi simdde newydd ynghyd a chreu estyniad i gadw peiriant rhwygo yng nghefn uned ddiwydiannol a adnabyddir fel Welcome Furniture ac sydd wedi ei leoli ar gyrion gogleddol Stad Ddiwydiannol Cibyn yn Rhosbodrual, Caernarfon. I'r gogledd o'r safle lleolir ardal breswyl, i'r dwyrain lleolir y brif ffordd sy'n gwasanaethu'r stad ddiwydiannol oddi ar y ffordd sirol dosbarth I (Ffordd Llanberis), i'r de lleolir y stad ddiwydiannol ei hun ac i'r gorllewin lleolir llwybr cyhoeddus a thir amaethyddol pellach draw.

1.2 Gellir rhannu'r datblygiad i fyny i'r elfennau canlynol:-

- Gosod uned biomas newydd yn lle'r uned sydd yno ar hyn o bryd oddi fewn i gysgodfan presennol. Ni all yr uned bresennol ymdopi gyda'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu ac sydd angen ei losgi ar safle (deunyddiau fel llwch lli a thorbrennau). Bydd yr uned newydd 999kW yn negyddu'r angen o gludo gwastraff i safle mewn lenwi, yn lleihau costau tanwydd a chludiant, creu gwagle a chynhyrchu dŵr cynnes a gwres i'r uned, lleihau allyriad carbon i'r amgylchedd a chyfrannu tuag at gadwraeth tanwydd a phŵer yn gyffredinol.

- Er mwyn i'r uned biomas newydd weithio'n effeithiol ac er mwyn cydymffurfio a'r rheoliadau iechyd a diogelwch/amgylcheddol statudol bydd rhaid gosod simdde newydd uwchben yr uned biomas a thrwy'r do'r gysgodfan i uchder o 5m (15m mewn cyfanswm) uwchben crib y to presennol ac wedi ei liwio'n llwyd i orffeniad mat gyda diamedr o 0.32m. Mae'n ofynnol cael yr uchder, lleoliad a'r maint yma er mwy gwasgaru llygryddion yn ddiogel i'r amgylchedd.

- Creu estyniad sy'n mesur 9.2m o hyd, 5.1m o ddyfnder gyda tho un-codiad 6m o uchder i'r crib gyda'i ddyluniad a'i faint yn adlewyrchu maint yr estyniad sy'n cysgodi'r uned biomas presennol. Oddi fewn i'r estyniad bydd peiriant rhwygo yn cael ei leoli ac fe ddefnyddi'r peiriant hwn ar gyfer paratoi'r torbrennau ar gyfer eu llosgi yn yr uned biomas. Bydd o wneuthuriad cladin dur proffil wedi ei liwio'n llwyd er mwyn gweddu gyda'r estyniad presennol.

1.3 Y bwriad yw parhau i ddefnyddio'r uned biomas 24 awr y diwrnod 7 diwrnod yr wythnos a'r peiriant rhwygo rhwng 06:00 - 18:00 Llun i Wener. Mae oriau gweithio presennol yr uned ddiwydiannol yn 06:00 18:00 Llun i Wener a 06:00 - 12:00 ar ddydd Sadwrn gyda'r iard yn agored o 6:00 - 18:00 Llun i Sadwrn a rhwng 12:00 - 18:00 ar Suliau a Gwyliau'r Banc. Nid oes bwriad newid yr oriau hyn.

1.4 Mae'r uned llosgi biomas ynghyd a'r peiriannau/offer cysylltiedig wedi eu lleoli yng nghefn yr uned ers 2002 pan ganiatawyd y cais gwreiddiol ar gyfer echdynnwr llwch. Yn 2010 caniatawyd cais ar gyfer uned llosgi biomas ynghyd a system echdynnu newydd ac yn 2011 caniatawyd cais ar gyfer cadw unedau echdynnu llwch newydd. Mae'r ceisiadau hyn yn adlewyrchiad o nid yn unig bwriad yr ymgeisydd i geisio bod yn hunangynhwysol ond hefyd yn ymateb i newidiadau yng ngofynion a rheoliadau statudol sy'n ymwneud a materion iechyd a diogelwch ynghyd a chyfarfod a thargedau cenedlaethol cadwraeth tanwydd/cynaladwyaeth.

1.5 Derbyniwyd y canlynol gyda'r cais:-

- Datganiad Dylunio a Mynediad.
- Asesiadau ac adroddiadau technegol yn ymwneud â dyluniad a maint y simdde ynghyd ac asesiad sŵn.

1.6 Mae'r asesiad sŵn yn datgan bydd yr estyniad presennol (sy'n gysgodfan i'r uned biomas) ynghyd a'r estyniad newydd ar gyfer y peiriant rhwygo yn cael eu hinsiwleiddio gan arwisg acwstig a bydd y mesur lliniaru hwn yn lleihau lefelau sŵn o'r lefelau presennol gan gydymffurfio a lefel sŵn LAeq 5 munud 23dB yn ystod y nos ac LAeq 1awr 45dB yn ystod y dydd (yn unol â gofynion statudol).

1.7 Mae'r safle wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer diwydiant ers y 60au pan roedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer defnydd peirianneg trwm a chyn i weddill y stad ddiwydiannol cael ei ddatblygu. Yn bresennol, mae'r uned yn cael ei ymestyn ymhellach ar gyfer creu storfa, canopi a chysgodfan i nwyddau. Caniatawyd y datblygiad yma yn ôl yn Nhachwedd, 2011 o dan gyfeirnod C11/0735/14/LL.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

2.2 **Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

POLISI A1 - ASESIADAU AMGYLCHEDDOL NEU ASESIADAU EFFEITHIAU ARALL
Sicrhau fod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu gyda'r cais cynllunio ynglŷn ag unrhyw effeithiau amgylcheddol neu eraill sylweddol tebygol ar ffurf asesiad amgylcheddol neu asesiadau o effeithiau eraill.

POLISI A3 - EGWYDDOR RAGOFALUS
Gwrthod cynigion os oes unrhyw bosibilrwydd o ddifrod difrifol neu anwrthdroadwy i'r amgylchedd neu'r gymuned os na ellir dangos heb amheuaeth ar ddiwedd asesiad perthnasol o'r effeithiau y gellir negyddu neu liniaru'r effaith.

POLISI B22 - DYLUNIAD ADEILADAU
Hyrwyddo dyluniad adeiladau da drwy sicrhau fod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu nodweddion a chymeriad cydnabyddedig y dirwedd a'r amgylchedd lleol.

POLISI B23 - MWYNDERAU
Diogelu mwynderau'r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.

POLISI B24 - GWNEUD NEWIDIADAU AC YMESTYN ADEILAD O FEWN FFINIAU DATBLYGU, PENTREFI GWLEDIG A CHEFN GWLAD
Sicrhau fod cynigion i wneud newidiadau neu ymestyn adeilad yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i ddiogelu cymeriad a gwerth mwynderol yr ardal leol.

POLISI B25 – DEUNYDDIAU ADEILADU
Gwarchodir cymeriad gweledol ardal y Cynllun trwy sicrhau mai dim ond llechi Cymreig naturiol neu lechi sy'n debyg o ran edrychiad, lliw a nodweddion hindreulio fydd yn cael eu caniatáu ar doi, ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae'r math o adeilad neu ei leoliad penodol, neu'r manteision o ran cynaliadwyedd yn golygu y byddai deunydd arall yn briodol. Ar gyfer rhannau eraill o adeiladau, disgwylir defnyddio deunyddiau adeiladu o safon uchel sy'n gweddu i gymeriad ac edrychiad yr ardal leol. Gwrthodir cynigion fydd yn arwain at gyflwyno deunyddiau sy'n israddol neu'n ymwthiol.

POLISI B33 - DATBLYGIADAU SY'N CREU LLYGREDD NEU BOENDOD
Diogelu amwynderau dynol, ansawdd iechyd a'r amgylchedd naturiol neu adeiledig rhag lefelau uchel o lygredd.

POLISI C27 - CYNLLUNIAU YNNI ADNEWYDDADWY A CHYNALIADWY
Caniatáu cynigion am gynlluniau ynni adnewyddadwy a rheoli ynni cyn belled ag y gellir cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn ymwneud ag effaith ar ansawdd gweledol y dirwedd a ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol.

POLISI D8 - EHANGU MENTRAU PRESENNOL
Caniatáu cynigion i ehangu/ymestyn/dwysau mentrau diwydiannol a busnesau presennol neu fentrau eraill os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol yn ymwneud gydag addasrwydd y defnydd presennol o safbwynt yr ardal o'i amgylch a defnyddiau cyfagos a'i berthynas a'r gwaith presennol.

2.3 **Polisïau Cenedlaethol:**

Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 12 Dylunio (2014).

Polisi Cynllunio Cymru, Fersiwn 7, (2014).

NCT 11 Sŵn (1997).

NCT 23 Datblygu Economaidd, (2014).

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Cais rhif C11/0735/14/LL - estyniadau i'r uned ddiwydiannol gan greu canopi uwchben drws presennol ynghyd a storfa wedi. Caniatáu Tachwedd, 2011.

3.2 Cais rhif C11/0472/14/LL - cadw unedau echdynnu llwch er mwyn cydadfer am yr uned a symudwyd o'r edrychiad gogleddol (cais ôl-weithredol). Caniatâd Rhagfyr, 2011.

3.3 Cais rhif C10A/0292/14/LL - cadw system echdynnu llwch, grisiau allanol ynghyd ac adeiladu estyniad i gadw uned losgi a 2 bibell echdynnu. Caniatáu Hydref, 2010.

3.4 Cais rhif C06A/0499/14/LL - estyniad ac ymestyn y maes parcio. Caniatáu Awst, 2006.

3.5 Cais rhif C02A/0728/14/LL - gosod uned echdynnu llwch (cais ôl-weithredol a diwygiad i'r cais a wrthodwyd o dan gyfeirnod C02A/0060/14/LL). Caniatáu ym Mehefin, 2005.

3.6 Cais rhif C02A/0060/14/LL - lleoli uned echdynnu llwch (cais ôl-weithredol). Gwrthod Ebrill, 2002 ar sail effaith andwyol yr uned ar fwynderau preswyl lleol.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
| --- | --- |
| Cyngor Cymuned/Tref: | Cefnogi |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Dim gwrthwynebiad gan bydd yr uned losgi yn cael ei drwyddedu gan Gyngor Gwynedd (Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd). |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd: | Cynnig sylwadau ar:-<br>(i) sŵn - er mwyn gwarchod trigolion cyfagos ni ddylai sŵn sy'n deillio o'r bwriad cael ei glywed oddi fewn i'r tai cyfagos. I'r perwyl hyn cyflwynwyd asesiad sŵn diwygiedig sy'n datgan gellir cydymffurfio a'r gofynion statudol perthnasol. Er mwyn sicrhau cydymffurfiad â chynnwys yr asesiad sŵn dylid cynnwys amodau caeth priodol pe caniateir y cais hwn;<br>(ii) ansawdd aer - dim pryderon ynglŷn â'r elfen hon o'r cais (yn dilyn canlyniadau adroddiad llygredd aer gan ymgynghorwyr amgylcheddol) gan ni bydd yr uned gyda simdde 15m o uchder yn amharu ar amcanion statudol diogelu ansawdd aer. |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos yn dilyn cynlluniau diwygiedig. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben a derbyniwyd gohebiaeth yn gwrthwynebu ar sail: |

- Mae'r uned biomas yn gweithio'n barhaol er gwaethaf amodau sy'n cyfyngu ar amseroedd sydd wedi eu cynnwys mewn ceisiadau blaenorol.
- Mae mwynderau preswyl trigolion cyfagos yn cael eu tanseilio gan arogleuon, sbwriel ynghyd a llygredd sŵn sy'n deillio, ac all ddeillio, o'r uned biomas presennol/arfaethedig.
- Gwrthwynebu datblygiadau pellach ar y safle oni bai fod y materion yn ymwneud a sŵn, sbwriel ac arogleuon yn cael eu datrys i lwyr foddhad y trigolion lleol.
- Mae'r asesiad swn a gyflwynwyd yn annigonol ac mewn mannau yn anghywir.
- Pryderon bod gollyngiadau o'r uned yn cael eu chwythu tuag at anheddau preswyl cyfagos.
- Dim cadarnhad ar sut fydd yr uned biomas yn cael ei fonitro.
- Pwy fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y deunyddiau cyfreithlon yn cael eu llosgi ?
- Dim yn argyhoeddedig bydd lleoli'r peiriant rhwygo mewn adeilad yn lleddfu ar y swn fydd yn deillio ohono.

Yn ogystal â'r gwrthwynebiadau uchod derbyniwyd gwrthwynebiadau nad oeddynt yn wrthwynebiadau cynllunio dilys:

- Y llanast sydd yn bresennol oddi fewn i'r safle ar sail sbwriel a deunyddiau gwastraff o'r uned cynhyrchu dodrefn ei hun.
- Diffyg sgrinio naturiol ar hyd ffin gogledd-dwyreiniol y safle gydag anheddau cyfagos yn dilyn difrod y tywydd garw yn 2013.

Mewn ymateb i'r pryderon diwethaf mae'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd a'r Uned Gorfodaeth yn ymchwilio i mewn i'r pryderon hyn fel mater ar wahân i'r cais hwn.

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae'r egwyddor o ehangu mentrau presennol wedi ei selio ym Mholisi D8 o CDUG sy'n datgan cymeradwyir cynigion sy'n ymwneud ag ehangu/ymestyn/dwysau mentrau diwydiannol a busnesau presennol os gellir cydymffurfio â chanllawiau parthed nad yw'r cynnig yn ymwneud â defnydd presennol sy'n achosi difrod arwyddocaol i'r ardal o'i amgylch, bod y cynnig wedi ei leoli o fewn datblygiad presennol, bod y cynnig yn ategol i'r gwaith sydd yno ar y pryd, na fydd graddfa'r bwriad yn amharu'n arwyddocaol ar fwynderau'r amgylchedd a'r rhwydwaith ffyrdd a bod y cynnig yn cynnwys mesurau tirlunio.

5.2 I'r perwyl hyn credir fod y bwriad diweddaraf hwn yn dderbyniol mewn egwyddor o ystyried y canlynol:-

- Gan ystyried yr holl asesiad hwn credir na fydd y cynnig diweddaraf yn mynd i achosi difrod arwyddocaol i'r ardal o amgylch y safle er gwaethaf derbyn gwrthwynebiadau sy'n cyfeirio at broblemau presennol sy'n achosi pryder i drigolion lleol ar sail aflonyddwch swn a llygredd.
- Mae'r egwyddor o ddatblygu'r uned ddiwydiannol ynghyd a'r uned biomas eisoes wedi ei sefydlu yn ôl yn 2002.
- Mae'r cynnig diweddaraf wedi ei leoli oddi fewn i gwrtil yr uned ddiwydiannol.
- Mae'r bwriad yn ategol i'r defnydd presennol.
- Credir na fydd graddfa'r bwriad yn amharu'n arwyddocaol ar yr amgylchedd o ystyried lleoliad y gwaith union gyferbyn a'r adeiladwaith presennol.
- Credir na fydd angen mesurau tirweddu ar sail lleoliad y bwriad mewn perthynas â gosodiad y tai cyfagos ac oherwydd bod arwynebedd y safle y tu cefn i'r uned yn gul.

5.3 Mae'r amcanion hyn hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru yn y dogfennau canlynol:-

- Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 23 Datblygu Economaidd (2014) sy'n datgan bod "llywio datblygiadau i leoliadau priodol (er enghraifft, oddi fewn

i ffiniau datblygu) yn amcan canolog yn y system gynllunio" a dylid ystyried effaith unrhyw ddatblygiad economaidd ar yr amgylchedd ac yn gymdeithasol yn ofalus. Mae'n ymhelaethu drwy ddatgan "Dylai awdurdodau cynllunio lleol adnabod arwyddion y farchnad ac ystyried yr angen am arwain datblygiad economaidd i'r lleoliad mwyaf priodol yn hytrach nag atal neu beidio â chefnogi datblygiad o'r fath". Yn yr achos yma mae defnydd economaidd wedi ei sefydlu ar y safle yn hanesyddol ac mae'n ffurfio rhan o'r stad ddiwydiannol.

- Polisi Cynllunio Cymru (2014), Pennod 7 Datblygu Economaidd sy'n datgan "…dylai awdurdodau lleol geisio sicrhau bod datblygu economaidd yn digwydd yn y mannau mwyaf priodol yn hytrach na rhwystro a dadlau yn erbyn datblygiad o'r fath". Mae'n ymhelaethu drwy ddatgan "Dylai awdurdodau cynllunio ddelio a cheisiadau datblygu economaidd mewn ffordd bositif ac adeiladol".

5.4 Dywed Polisi A1 o GDUG y gwrthodir cynigion os na fydd gwybodaeth ddigonol yn cael ei ddarparu gyda'r cais cynllunio ynglŷn ag unrhyw effeithiau amgylcheddol neu eraill sylweddol tebygol (er enghraifft, swn, iechyd ac ecolegol ayyb). Er nad yw'r bwriad dan sylw yn destun Datganiad Amgylcheddol o dan canllawiau Sgediwl 2, Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol)(Diwygio)(Cymru), 2008 (gan y credir na fydd y bwriad yn debygol o achosi niwed arwyddocaol i'r amgylchedd oherwydd ei leoliad, maint, natur a mesuriadau lliniaru addas) bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol dal angen gwybodaeth ddigonol er mwyn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch â cheisiadau cynllunio.

5.5 I'r perwyl hyn, cyflwynwyd asesiadau ac adroddiadau technegol yn ymwneud a dyluniad a maint y simdde ynghyd ac asesiad swn gyda'r cais a chredir fod cynnwys y wybodaeth technegol hyn ynghyd a derbyn sylwadau Uned Gwarchod y Cyhoedd yn galluogi'r Awdurdod asesu'r cais yn gyflawn ar sail ei effaith ar yr amgylchedd naturiol a'r gymdogaeth leol. Dywed Polisi C27 caniateir cynigion am gynlluniau ar gyfer ynni adnewyddadwy a rheoli ynni yn amodol ar gydymffurfio gyda nifer o feini prawf sy'n ymwneud a, er enghraifft, diogelu mwynderau gweledol y dirwedd a sicrhau na fydd y datblygiad arfaethedig yn peri cynnydd annerbyniol mewn lefelau swn, drewdod, llwch na nwyon.

5.6 O ystyried yr uchod credir fod egwyddor y bwriad yn dderbyniol yn ddarostyngedig ei fod hefyd yn cwrdd â'r polisïau a asesi'r isod.

**Mwynderau gweledol**

5.7 Mae'r caniatadau blaenorol sy'n ymwneud a datblygu'r rhan yma o'r uned ddiwydiannol wedi golygu gosod strwythurau amrywiol pwrpasol ar edrychiad allanol yng nghefn yr uned ei hun sydd, mwy neu lai, yn cynnwys pibellau a bocsys o ddur wedi eu galfaneiddio ac wedi eu gosod ar fframiau dur ynghyd a chysgodfan o wneuthuriad cladin dur proffil lliw llwyd. Er bod y rhan fwyaf o'r offer wedi eu lleoli o dan gribau'r toeau'r uned mae un simdde/echdynnydd eisoes wedi ei leoli oddeutu 2m uwchben un crib. Mae lleoliad yr offer a'r strwythurau cysylltiedig, deunyddiau a'u dyluniadau wedi eu rheoli a'u siapio gan ofynion statudol cyrff rheoleiddio ac nid yw'n bosib eu gorchuddio gydag arwisg. Mae arwynebedd troed yr offer presennol yn 204m2 a phe caniateir y cais hwn bydd yn ychwanegu 33m2 i'r cyfanswm presennol sy'n gyfystyr â chodiad o 16%. Nid yw'n hawdd ceisio cymathu strwythurau diwydiannol eu hedrychiad fel hyn i'w cefndir yn enwedig ar sail bod y

bwriad hefyd yn golygu gosod simdde/echdynnydd newydd a fydd yn ymestyn 5m yn uwch na chribau'r to presennol. Er hyn, mae'r ymgeisydd wedi ceisio lleihau ar effaith gweledol y strwythurau ychwanegol hyn er mwyn i'r estyniad bwriedig gyd-weddu â'r estyniad presennol ar sail ei ddyluniad, maint, cymesuredd a'i edrychiad ynghyd a phaentio'r simdde yn llwyd mat er mwyn lleihau effaith adlewyrchiad yr haul arno.

5.8 Er bod yr offer ar ochr allanol yr uned nid ydynt yn hollol weledol hyd nes bod rhywun yn teithio ar hyd y ffordd sydd union gyfochrog a chefn y safle ac mae'r olygfa o'r offer o weddill y stâd yn ysbeidiol. Bydd y simdde yn fwy gweledol oherwydd ei uchder ond rhaid ystyried fod y safle yn safle diwydiannol wedi ei leoli ar stâd ddiwydiannol sefydledig ac mae'n anorfod fod y mathau hyn o strwythurau yn rhan annatod o gymeriad y fath ardaloedd. O ystyried yr asesiad uchod credir fod y bwriad yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi B22, B23, B24, B25 a D8 o GDUG.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.9 Fel y cyfeiriwyd ato uchod lleolir anheddau preswyl i'r gogledd o safle'r cais ac mae gwrthwynebiadau eisoes wedi eu derbyn parthed y bwriad diweddaraf hwn. Mae'r prif wrthwynebiadau a chwynion yn ymwneud â swn ac aflonyddwch a'r pryder fod yr uned biomas presennol yn rhedeg 24 awr 7 diwrnod yr wythnos yn groes i amodau cynllunio. Yn y cyd-destun yma y cais perthnasol yw cais rhif C11/0472/14/LL a ganiatawyd yn Rhagfyr, 2011 ar gyfer cadw unedau echdynnu llwch ynghyd a chais rhif C10A/ 0292/14/LL ar gyfer cadw system echdynnu llwch ac estyniad a ganiatawyd yn Hydref, 2010. Mae amodau wedi eu cynnwys yn y caniatadau hyn sydd yn cyfyngu ar pryd gellir defnyddio'r offer ynghyd ac uchafswm lefelau swn. Mae'n amlwg o gynnwys y gwrthwynebiadau bod yr ymgeisydd yn torri'r amodau hyn ar sail bod pryder fod yr uned biomas yn gweithio 24/7.

5.10 Mae Uned Gwarchod y Cyhoedd ynghyd a'r Uned Gorfodaeth yn ymwybodol o'r sefyllfa hyn ond gan fod y cais cyfredol hyn wedi ei gyflwyno byddent yn atal o gymryd achos gorfodaeth ar hyn o bryd ac sy'n unol gyda'r cyngor ym Mholisi Cynllunio Cymru, Pennod 3 Gwneud Penderfyniadau Cynllunio a'u Gorfodi.(2014).

5.11 Yn yr achos arbennig hwn, ac er gwaethaf derbyn gwrthwynebiadau a chwynion gan drigolion lleol, ceir cyfle yma, pe caniateir y cais hwn, i ymgymryd â mesuriadau lliniaru er mwyn sicrhau bydd y system/offer newydd yn cydymffurfio â gofynion lefelau swn statudol gan obeithio wedyn na fydd ad-drawiad sylweddol ac arwyddocaol ar fwynderau preswyl a chyffredinol trigolion cyfagos. Bydd mesurau rheoli yn yr achos yma yn cynnwys gosod amodau cynllunio sy'n ymwneud ag oriau gweithio'r offer ynghyd a gosod lefelau uchafswm swn fydd yn deillio o'r uned biomas ynghyd a'r peiriant rhwygo. Pe bai sefyllfa yn codi yn y dyfodol bod tor-amod(au) cynllunio yn cymryd lle, yna, gellir ymgymryd ag ymchwiliadau gorfodaeth briodol y pryd hynny.

5.12 Mae pryderon hefyd wedi eu derbyn sy'n ymwneud â gollyngiadau llygryddion fel "nitrogen oxide" yn deillio o'r uned yn cael eu chwythu tuag at anheddau preswyl cyfagos. Fel y cyfeirir ato uchod mae'r gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi asesu'r asesiad gollyngiadau llygredd a gyflwynwyd fel rhan o'r cais ac wedi dod i'r casgliad nad oes perygl i'r boblogaeth leol ar sail dirywiad yn ansawdd yr aer yn yr ardal gyfagos pe caniateir y cais hwn ac pe cydymffurfir â chanlyniadau'r asesiad ei hun.

5.13 Gan gymryd i ystyriaeth yr uchod ynghyd a gofynion a chyngor Pennod 13 Polisi Cynllunio Cymru Cyfyngu ar Risgiau Amgylcheddol a Llygredd a'u Rheoli a gan bwyso a mesur ofalus rhwng yr angen i osgoi niwed arwyddocaol a sylweddol i'r amgylchedd a'r gymdeithas leol gyda manteision economaidd pe caniateir y cais hwn credir fod y bwriad yn dderbyniol yn ddarostyngedig i gynnwys amodau caeth perthnasol ac, felly, ystyrir ei fod yn cydymffurfio a gofynion Polisi A1, A3, B33 a D8 o GDUG ynghyd a chyngor cenedlaethol.

**Materion cynaliadwyedd**

5.14 Mae'r bwriad diweddaraf hwn yn ymgais gan yr ymgeisydd nid yn unig i fod yn hunangynhaliol ond hefyd yn ymateb i newidiadau yng ngofynion a rheoliadau statudol sy'n ymwneud â materion iechyd a diogelwch ynghyd a chyfarfod a thargedau cenedlaethol cadwraeth tanwydd/cynaladwyaeth. Mae'r amcanion hyn yn adlewyrchiad o'r cyngor a gynhwysir yn NCT 23 Datblygu Economaidd sy'n datgan - "Dylai'r system gynllunio fynd ati'n gadarnhaol ac yn ddychmygus i geisio canlyniadau sy'n sicrhau bod pawb ar eu hennill, gyda'r datblygiad yn cyfrannu at bob agwedd ar gynaliadwyedd". Mae'r amcan hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu'n gyffredinol ym Mhennod 7 Polisi Cynllunio Cymru ar Ddatblygu Economaidd sy'n datgan - "Dylent (awdurdodau cynllunio lleol) edrych yn ffafriol ar gynigion i godi cyfleusterau newydd i gynhyrchu ynni carbon isel gan gynnwys, er enghraifft, cyfleusterau effeithlon ar gyfer adfer ynni o wastraff….cyn belled nad ydynt yn cael effaith annerbyniol ar yr amwynder lleol". Credir, felly, bod y bwriad yn dderbyniol ar sail gofynion Polisi C27 o GDUG ynghyd a chyngor cenedlaethol perthnasol.

**Hanes cynllunio perthnasol**

5.15 Fel y cyfeiriwyd ato uchod mae hanes helaeth yn ymwneud â lleoli a chodi offer a strwythurau biomas ac echdynnu llwch yng nghefn yr uned ddiwydiannol ac fel y cyfeiriwyd ato uchod mae'r egwyddor o ddatblygu'r cefn wedi ei osod a'i dderbyn yn ôl yn 2002. I'r perwyl hyn, felly, credir fod hanes y safle yn ystyriaeth sy'n faterol i gynllunio ac yn faterol wrth ystyried y cais cyfredol hwn.

**Yr economi**

5.16 Mae cyngor a chanllawiau cenedlaethol (NCT 23 a Pholisi Cynllunio Cymru) yn pwysleisio dylai awdurdodau cynllunio lleol geisio sicrhau bod datblygiadau economaidd yn digwydd yn y mannau mwyaf priodol yn hytrach na rhwystro a dadlau yn erbyn datblygiadau o'r fath. Pwysleisir hefyd dylai'r system gynllunio helpu'r economi a chyflogaeth i dyfu yn ogystal â chefnogi cynaliadwyedd cymdeithasol ac amgylcheddol yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy. Dylai awdurdodau hefyd ddelio â cheisiadau datblygu economaidd mewn ffordd bositif ac adeiladol. O fewn y cyd-destun cenedlaethol yma ac ar ôl pwyso a mesur credir bod y bwriad diweddaraf hwn yn dderbyniol yn ddarostyngedig i gynnwys mesur lliniaru addas ar ffurf amodau sy'n ymwneud â sicrhau bod mwynderau preswyl a chyffredinol trigolion cyfagos yn cael eu diogelu.

**Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**

5.17 Mae'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd o ganlyniad i dderbyn y cais diweddaraf hwn yn ddilyniant o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd ar geisiadau blaenorol ynglŷn â datblygu'r uned yma ar safle diwydiannol ar gyfer echdynnydd llwch a'r uned biomas. Credir fod y gwrthwynebiadau wedi derbyn ystyriaeth lawn yn yr asesiad

uchod ac nad oes unrhyw fater yn gorbwyso'r ystyriaethau polisi a chyngor perthnasol a nodir.

**Casgliadau:**

6.1 Gan ystyried cynnwys yr asesiad uchod credir fod y bwriad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol fel y nodir yn yr asesiad ei hun.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Caniatáu - amodau :-

1. 5 mlynedd.
2. Yn unol â'r cynlluniau.
3. Cyflwyno manylion parthed gorffeniadau allanol.
4. Ni chaiff unrhyw swn a gynhyrchir o ganlyniad i ganiatau'r cais hwn fod yn uwch na'r lefelau swn canlynol wrth fesur yn allanol ger unrhyw eiddo sensitif:-

    - Yn ystod yr oriau 08:00 – 18:00 (Llun i Gwener) a 08:00 – 12:00 (ar fore Sadwrn) rhaid i'r uned biomas, uned echdynnu a'r peiriant rhwygo cydymffurfio a lefel swn o 45dB LAeq 1awr;
    - Yn ystod yr oriau 18:00 – 08:00 (Llun i Gwener) rhaid i'r uned biomas gydymffurfio a lefel swn o 23dB LAeq 5munud: ac
    - Yn ystod yr oriau 18:00 – 08:00 (Llun i Gwener) ni chaiff lefel swn Leq 15munud ar gyfer amledd band canol wythfed 31.5Hz, 63Hz a 125Hz yr uned biomas gynyddu o'i fesur yn allanol ger unrhyw eiddo sensitif i swn gerllaw.

5. Ni chaniateir i'r peiriant rhwygo na'r uned echdynnu llwch cael eu defnyddio rhwng oriau 18:00 – 08:00 (Llun i Sadwrn ac eithro o 08:00 – 12:00 ar fore Sadwrn).
6. Ni chaniateir i'r uned biomas, peiriant rhwygo na'r uned echdynnu llwch cael eu defnyddio ar unrhyw ddydd Sul na Gwyliau Banc.
7. Cyn defnyddio'r uned biomas at unrhyw ddiben rhaid cwblhau asesiad monitro swn llawn gan gwmni annibynnol sydd i'w gytuno'n ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod i sicrhau na fydd unrhyw swn a gynhyrchir o ganlyniad i weithredu'r uned biomas ac unrhyw offer cysylltiedig fod yn uwch na'r lefelau fel y'i disgrifir yn amod 4 uchod.
8. Dim ond tanwydd sy'n cael ei gydnabod yn addas gan gwneuthurwyr yr uned biomas ac sy'n deillio o'r busnes Welcome Furniture gaiff ei losgi yn yr uned biomas. Ni chaniateir i danwydd gael ei gario i mewn o unrhyw darddiad allanol heb dderbyn yn gyntaf caniatâd ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol
9. Ni chaniateir i loriau sydd yn sefyll yn y man llwytho (yn yr ardal a amlinellir mewn gwyrdd ar y cynllun sydd ynghlwm a'r caniatâd hwn) neu sy'n dadlwytho adael yr injan yn rhedeg tra ar y safle.
10. Ni chaiff uchder y simdde fod yn llai na 5m uwchben cribau toeau'r uned ddiwydiannol (uchder cyfunol o 15m) er mwyn sicrhau gwasgariad digonol o allyriadau llygryddion o'r simdde ei hun.